ADDYSG CYMRU
EDUCATION WALES
cenhadaeth ein cenedl | our national mission

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Uwchgynhadledd Ymddygiad Genedlaethol 22.05.25
# Ymddygiad mewn ysgolion a cholegau yng Nghymru

## Adroddiad terfynol

**Llywodraeth Cymru**

**Is-Adran Tegwch mewn Addysg**

**Grŵp Addysg, Diwylliant a'r Gymraeg**

**Parc Cathays**

**Caerdydd**

**CF10 3NQ**

**Tegwchmewnaddysg@llyw.cymru**

@LlC_Addysg

Facebook/AddysgCymru

**ISBN digidol 978-1-80633-211-3**

**© Hawlfraint y Goron Gorffennaf 2025**

**WG52730**

# Cynnwys


**Cyflwyniad** ... 2

**Ymchwil ddiweddar** ... 3

**Themâu'r Uwchgynhadledd** ... 5

**Trafodaethau mewn perthynas ag ymddygiad mewn ysgolion** ... 6

**Trafodaeth 1: Arweinyddiaeth ac addysgu** ... 6

**Y materion sy'n codi ar hyn o bryd** ... 6

**Arferion effeithiol** ... 7

**Camau a awgrymir** ... 7

**Trafodaeth 2 – Dulliau o sicrhau cynhwysiant a lles** ... 8

**Y materion sy'n codi ar hyn o bryd** ... 8

**Arferion effeithiol** ... 10

**Camau a awgrymir** ... 10

**Trafodaeth 3: Teuluoedd a chymunedau** ... 11

**Y materion sy'n codi ar hyn o bryd** ... 11

**Arferion effeithiol** ... 12

**Camau a awgrymir** ... 13

**Trafodaethau mewn perthynas ag ymddygiad mewn colegau** ... 14

**Trafodaeth 1: Arweinyddiaeth ac addysgu** ... 14

**Y materion sy'n codi ar hyn o bryd** ... 14

**Arferion effeithiol** ... 14

**Camau a awgrymir** ... 15

**Trafodaeth 2 – Dulliau o sicrhau cynhwysiant a lles** ... 15

**Y materion sy'n codi ar hyn o bryd** ... 15

**Arferion effeithiol** ... 16

**Camau a awgrymir** ... 16

**Trafodaeth 3: Teuluoedd a chymunedau** ... 16

**Y materion sy'n codi ar hyn o bryd** ... 16

**Arferion effeithiol** ... 17

**Camau a awgrymir** ... 17

**Elfennau tebyg a nodwyd yn y cyfarfod Bord Gron** ... 18

**Camau i'w cymryd ar unwaith** .......... 20
**Atodiad A** .......... 22
**Atodiad B** .......... 23

## Cyflwyniad

1. Cynhaliwyd yr Uwchgynhadledd Genedlaethol ar Ymddygiad mewn Ysgolion a Cholegau ar 22 Mai yn y Deml Heddwch yng Nghaerdydd, ac fe'i llywyddwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg a'r Gweinidog Addysg Bellach ac Uwch.

2. Daeth y digwyddiad hwn â 118 ynghyd i rannu eu mewnwelediad ac ysgogi newid cadarnhaol. Roeddent yn dod o awdurdodau lleol, undebau'r gweithlu addysg, ysgolion a cholegau, ac ystod o gefndiroedd allweddol gan gynrychioli'r blynyddoedd cynnar, gwaith ieuenctid, datblygiad plant, iechyd, anghenion dysgu ychwanegol a seicoleg ymddygiad.

3. Roedd pawb wedi ymrwymo i feithrin ymddygiad cadarnhaol a lles ymhlith plant a phobl ifanc, ac i sicrhau diogelwch staff a dysgwyr ysgolion a cholegau mewn lleoliadau addysg.

4. Roedd yr Uwchgynhadledd yn amgylchedd cydweithredol i randdeiliaid ac ymarferwyr rannu profiadau a datrysiadau, hyrwyddo ymddygiadau cadarnhaol, ac archwilio a rhannu dulliau effeithiol sydd eisoes ar waith yng Nghymru.

5. Mae'r digwyddiad hwn yn rhan o raglen ehangach o ymgysylltu ynghylch ymddygiad mewn ysgolion, gan gynnwys:
   - Cyfarfod Bord Gron ar drais a diogelwch mewn ysgolion a cholegau;
   - Fforwm i edrych ar faterion sy'n ymwneud â gwahardd dysgwyr a'u cadw yn yr ysgol ar ddiwedd y dydd;
   - Fforwm i edrych ar faterion sy'n ymwneud â'r defnydd o ffonau symudol a'r cyfryngau cymdeithasol;
   - Cyfres o ddigwyddiadau i ddod gydag ysgolion, colegau, rhieni a dysgwyr.

6. Cynhaliwyd y cyfarfod Bord Gron ar 8 Mai, ar ôl rhannu adroddiad interim ymlaen llaw. Seiliwyd sesiynau trafod yr Uwchgynhadledd yn uniongyrchol ar brif allbynnau'r cyfarfod Bord Gron, ynghyd â chanfyddiadau ein harolwg o'r gweithlu, yr adborth gan undebau'r gweithlu addysg, a'r adroddiadau a gwblhawyd gan Estyn a Phrifysgol Bangor.

7. Mae'r adroddiad cryno hwn yn nodi'r camau sydd i'w cymryd ar unwaith yn sgil yr Uwchgynhadledd, ac yn tynnu sylw at yr elfennau sy'n gydnaws ag ystyriaethau'r cyfarfod Bord Gron.

8. Bydd mewnwelediad o'r Arolwg Cenedlaethol o Ymddygiad, y cyfarfod Bord Gron a'r Uwchgynhadledd yn cyfrannu at y corff cynyddol o dystiolaeth a fydd yn llywio'r gwaith o ddatblygu strategaethau clir, ymarferol i wella ymddygiad mewn ysgolion a cholegau.

9. Mae copi o raglen y digwyddiad yn **Atodiad A** a rhestr derfynol o'r unigolion a ddaeth yn **Atodiad B**.

10. Roedd yr adborth ar y diwrnod yn gadarnhaol dros ben, ac roedd brwdfrydedd mawr i gynnal digwyddiadau ymgysylltu ag ymarferwyr, dysgwyr a rhieni yn y dyfodol.

## Ymchwil ddiweddar

11. Cyn yr Uwchgynhadledd, cyhoeddodd Pwyllgor Deisebau'r Senedd adroddiad ym mis Mawrth 2025 ynghylch gwahardd ffonau clyfar mewn ysgolion yng Nghymru. Roedd yr adroddiad yn canolbwyntio ar roi canllawiau gwell i ysgolion yn hytrach na gwahardd ffonau symudol yn llwyr. Croesawodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg yr argymhellion a nodir yn yr adroddiad hwn i wella'r gefnogaeth a'r canllawiau i ysgolion ar y mater hwn, ac ymrwymodd i gyflymu'r broses o sefydlu fforwm newydd i ganolbwyntio ar y defnydd o ffonau symudol a'r cyfryngau cymdeithasol. Roedd effaith ffonau symudol ar ymddygiad hefyd yn fater perthnasol yn nhrafodaethau'r Uwchgynhadledd.

12. Rhannwyd pecyn tystiolaeth cynhwysfawr cyn yr Uwchgynhadledd, gan gynnwys dolenni i:

    - Adolygiad Thematig Estyn - Meithrin parch ar y ddwy ochr - hyrwyddo ymddygiadau cadarnhaol mewn ysgolion uwchradd (yr adroddiad ac adnoddau cysylltiedig).
    - Astudiaethau Achos – Detholiad o enghreifftiau o arferion gorau gan Estyn.
    - Adolygiad Thematig Estyn - Ymddygiad dysgwyr mewn colegau Addysg Bellach.
    - Ymchwil Prifysgol Bangor - Ymddygiadau sy'n herio ac yn tarfu mewn ysgolion ar draws Cymru: strategaethau a mesurau lliniaru effeithiol
    - Arolwg o ymddygiad - Bwletin gwybodaeth sy'n ymwneud â chanlyniadau'r arolwg o ymddygiad
    - Arolwg o ymddygiad - Cyflwyniad PowerPoint o'r canfyddiadau
    - Adroddiad Interim - Cyfarfod Bord Gron ar drais mewn ysgolion a cholegau - 08.05.25
    - NASUWT Cymru - Adroddiad ar drais ac ymddygiad ymosodol mewn ysgolion
    - Prifysgol Roehampton, Llundain - Trais tuag at gynorthwywyr addysgu/dosbarth yn ysgolion prif ffrwd y DU
    - Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru (ASCL Cymru) – Nodyn ar ffactorau sy'n ysgogi ymddygiadau amhriodol mewn ysgolion

13. Roedd yr adroddiadau a rannwyd gan undebau addysg yn canolbwyntio ar rai o'r materion penodol y mae ymarferwyr yn eu hwynebu ar hyn o bryd, gan gynnwys effaith ymosodiadau corfforol ar athrawon, lles athrawon a iechyd meddwl (NASUWT Cymru) a'r ffactorau sy'n ysgogi ymddygiadau amhriodol mewn ysgolion (ASCL Cymru).

14. Cyn yr Uwchgynhadledd, cyhoeddodd Estyn ddau adroddiad thematig yn canolbwyntio ar ymddygiad dysgwyr. Roedd y cyntaf, a gyhoeddwyd ar 1 Mai, yn ystyried ymddygiad mewn lleoliadau addysg bellach, a'r ail, a gyhoeddwyd ar 8 Mai, yn edrych ar hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol mewn ysgolion uwchradd.

15. Seiliwyd adroddiad addysg bellach Estyn ar ymweliadau â saith coleg, arolygon cenedlaethol ymhlith staff a dysgwyr, ac ymgyngoriadau â rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys cynrychiolwyr undebau. Nodwyd bod cyrraedd yn hwyr, absenoldeb, defnydd amhriodol o'r cyfryngau cymdeithasol, a fepio yn broblemau cyffredin. Roedd y prif argymhellion ar gyfer colegau yn canolbwyntio ar rannu

arferion er mwyn mireinio arferion rheoli ymddygiad, canllawiau i ddysgwyr ar ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol, darparu cymorth pwrpasol i ddysgwyr a chefnogi lles staff. Roedd argymhelliad hefyd i Lywodraeth Cymru ar strategaeth fepio genedlaethol, ac argymhelliad i Medr ystyried modelau cyllido hirdymor.

16. Roedd canfyddiadau Estyn mewn perthynas ag ysgolion yn seiliedig ar ymweliadau â 24 o ysgolion uwchradd ac ysgolion pob oed, trafodaethau gyda swyddogion o 10 awdurdod lleol, a chanfyddiadau arolygon disgyblion, staff a phenaethiaid. Datgelodd canlyniadau'r arolygon fod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn disgrifio ymddygiad mewn ffordd gadarnhaol. Fodd bynnag, mae staff a phenaethiaid yn mynegi pryderon am gynnydd mewn tarfu lefel isel. Roedd argymhellion Estyn yn cynnwys systemau rheoli ymddygiad cryfach, dulliau cyson o ymgysylltu â theuluoedd, cyfleoedd dysgu proffesiynol ar reoli ymddygiad sy'n tarfu, gan gynnwys hyfforddiant cychwynnol athrawon a rhaglenni sefydlu, ac ymgyrch genedlaethol ar ymddygiad cadarnhaol.

17. Mae'r ddau adroddiad yn amlinellu heriau ymddygiad dysgwyr ac yn archwilio strategaethau i hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol, rheoli ymddygiad negyddol, mynd i'r afael â heriau camreoleiddio a chyfathrebu a gwella'r gefnogaeth i ddysgwyr a staff.

18. Y diwrnod cyn yr Uwchgynhadledd, cyhoeddwyd ymchwil bellach i ymddygiad yn yr ystafell ddosbarth a wnaed gan Brifysgol Bangor, gan ganolbwyntio ar strategaethau effeithiol i fynd i'r afael ag ymddygiad sy'n herio ac yn tarfu mewn ysgolion.

19. Darparodd yr astudiaeth hon atebion ymarferol, sy'n seiliedig ar dystiolaeth i lywio polisi ac arferion. Roedd cyflwyniad yr Athro Carl Hughes yn yr Uwchgynhadledd yn rhoi mewnwelediad pwerus i effaith meithrin cydberthnasau cadarnhaol rhwng dysgwyr ac athrawon ar ymddygiad, yn ogystal â buddsoddi mewn cefnogi dysgwyr i feithrin hyblygrwydd seicolegol i reoli eu teimladau.

20. Roedd cyflwyniadau gan Estyn a Phrifysgol Bangor yn yr Uwchgynhadledd yn cynnig mewnwelediad ymchwil gwerthfawr i gyfoethogi sesiynau trafod wedyn.

## Themâu'r Uwchgynhadledd

21. Mynychodd 118 o bartneriaid, rhanddeiliaid ac ymarferwyr yr Uwchgynhadledd. Er mwyn sicrhau bod y trafodaethau yn cadw at y trywydd iawn, a bod pawb yn cael cyfle i rannu eu barn, gosodwyd byrddau i 8-10 yr un. Cynhaliwyd trafodaethau ar y byrddau, gyda chefnogaeth hwyluswyr ac ysgrifenyddion i sicrhau bod yr holl bwyntiau yn cael eu cofnodi.

22. Grwpiwyd y drafodaeth o amgylch tair thema, gan ganolbwyntio'n bennaf ar broblemau cyfredol ynghylch ymddygiad dysgwyr, a'r hyn a oedd yn eu hachosi, arferion effeithiol a chamau angenrheidiol.

    - Trafodaeth 1: Arweinyddiaeth ac addysgu - creu polisïau ac arferion effeithiol i gefnogi cydberthnasau ac ymddygiad cadarnhaol.
    - Trafodaeth 2: Dulliau o sicrhau cynhwysiant a lles – cyflawni anghenion emosiynol a iechyd meddwl dysgwyr yn ogystal â dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol.
    - Trafodaeth 3: Teuluoedd a chymunedau – ystyried effaith newidiadau a dulliau cymdeithasol er mwyn cefnogi gwelliannau yn y maes hwn.

23. Gwahoddwyd hwyluswyr i roi adborth yn dilyn pob sesiwn drafod. Darperir ciplun cyffredinol isod o'r themâu lefel uchel:

    1. **Arweinyddiaeth a gweithlu**: Arweinyddiaeth gref, weladwy; gweithredu polisïau ymddygiad cadarn yn gyson, wedi'u teilwra i gyd-destun yr ysgol, i sicrhau bod staff ar bob lefel yn cael eu cefnogi; a hyrwyddo amgylchedd dysgu cadarnhaol lle dangosir parch.
    2. **Addysg gynhwysol, holistaidd**: Dylai ysgolion ymdrechu i gyflawni anghenion addysgol, emosiynol a datblygiadol dysgwyr drwy arferion cynhwysol a dulliau sy'n ystyriol o drawma. Mae hyn yn cynnwys ffocws clir ar anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu.
    3. **Cyllid ac adnoddau**: Y gofyniad i flaenoriaethu cyfoethogi a lles, gan sicrhau cyllid hyblyg, hirdymor i gefnogi staff, gwasanaethau ac ymyriadau.
    4. **Ymgysylltu â theuluoedd a'r gymuned**: Mae cryfhau'r berthynas â theuluoedd a chymunedau yn hanfodol, ac mae cydlynwyr ADY a swyddogion ymgysylltu â theuluoedd yn chwarae rhan allweddol o ran pontio.
    5. **Cydweithredu a newid systemig**: Mae angen dull cenedlaethol a blaenoriaethau clir, cydweithredu traws-asiantaethol, a rhannu arferion gorau er mwyn mynd i'r afael â heriau cymdeithasol cymhleth. Mae angen cysondeb wrth gofnodi ac adrodd am ddigwyddiadau i sicrhau bod modd gweld patrymau a gweithredu.
    6. **Parch a chydberthnasau**: Mae ailadeiladu parch at y proffesiwn a meithrin cydberthnasau cadarnhaol ymhlith staff, dysgwyr a theuluoedd yn elfennau hanfodol.

24. Caiff camau gweithredu penodol sy'n deillio o bob sesiwn drafod nawr eu harchwilio'n fwy manwl.

## Trafodaethau mewn perthynas ag ymddygiad mewn ysgolion

Cododd y trafodaethau faterion ynghylch y **dirywiad yn y berthynas rhwng rhieni ac ysgolion** ar ôl y pandemig, a nodwyd dirywiad yn y parch at y proffesiwn, a mwy o sgeptigiaeth a gelyniaeth ymhlith rhieni. Mae profiadau negyddol rhieni o addysg, yn enwedig mewn ysgolion uwchradd, yn ei gwneud yn anoddach meithrin perthynas. Mae'r cyfryngau cymdeithasol yn cynyddu'r sylw a roddir i gwynion a chamwybodaeth, sydd yn aml yn tanseilio ymdrechion ysgolion. Mae gan ddysgwyr a'u teuluoedd ddisgwyliadau uchel o ran y gefnogaeth y gall ysgolion eu darparu, a all arwain at rwystredigaethau pan fyddant yn teimlo nad ydynt yn cael eu clywed, eu deall na'u cefnogi.

### Trafodaeth 1: Arweinyddiaeth ac addysgu

Agorodd y sesiwn â'r cwestiwn Slido canlynol:




**Y materion sy'n codi ar hyn o bryd**
Ymhlith y prif bryderon a godwyd roedd **cynnydd amlwg mewn problemau ymddygiad**, yn enwedig ymddygiadau gwrthgymdeithasol, herfeiddiol ac sy'n tarfu ar eraill, sy'n gysylltiedig â heriau ôl-bandemig, y cyfryngau cymdeithasol, ac amgylchedd y cartref. Dylid nodi, er bod tuedd i gyfeirio at y ffaith bod materion wedi dirywio ar ôl y pandemig, fod yna rywfaint o dystiolaeth o ddirywiad dros gyfnod hirach.

Amlygwyd anghysondebau o ran arweinyddiaeth, rheoli ymddygiad, a chydweithredu aml-asiantaethol fel elfennau a oedd wedi cyfrannu at **brofiadau anghyson ymhlith dysgwyr a staff**. Nodwyd hefyd fod diffygiad ymhlith staff, straen yn y berthynas rhwng rhieni a'r ysgol, a **phrinder amser i feithrin perthynas gadarnhaol** yn effeithio ar ethos yr ysgol ac ar yr ymgysylltu â dysgwyr.

Rhoddwyd sylw wedyn i'r **ffocws ar ganlyniadau academaidd** ar draul datblygiad cymdeithasol-emosiynol a llwybrau galwedigaethol.  Roedd yna gonsensws ynghylch

yr angen i ganolbwyntio ar ddarllen fel ffordd o alluogi dysgwyr i gael mynediad at y cwricwlwm. Ymhlith yr heriau ehangach roedd cyllid, pwysau staffio, a **mynediad at gymorth arbenigol amserol** fel ADY, iechyd meddwl, a gwasanaethau lleferydd a iaith.

Roedd yr **angen am ddiwygio systemig** yn neges gyson, gan gynnwys disgwyliadau cymdeithasol cliriach ynghylch ymddygiad, cyfleoedd dysgu proffesiynol gwell, a phwyslais cryfach ar y blynyddoedd cynnar ac ymyriadau ac ymgysylltu cynnar â theuluoedd.

**Arferion effeithiol**

- Mae **awdurdod lleol Abertawe** wedi rhoi cyfres o egwyddorion ar waith ar draws pob ysgol, sy'n canolbwyntio ar barchu cyfoedion a hawliau plant, ynghyd â disgwyliadau sydd wedi'u diffinio'n glir ar gyfer disgyblion, rhieni a staff.
- Cyfle i adeiladu ar y gwaith llwyddiannus dan arweiniad **Charlotte Clarke** sy'n canolbwyntio ar ddatblygu **pecyn cymorth ymarferol neu raglen hyfforddi i athrawon**.
- Mae **awdurdod lleol Sir Fynwy** wedi gweithio gyda rhieni i ofyn iddynt beidio â chaniatáu i blant gael ffonau clyfar tan o leiaf Blwyddyn 10.
- Mae **awdurdod lleol Ceredigion** yn defnyddio model cymorth trionglog i gryfhau ymyriadau ymddygiad.
- Mae **trefniadau pontio** effeithiol ar waith mewn rhai ardaloedd, gan sicrhau bod gwybodaeth am ddysgwyr yn cael ei rhannu rhwng lleoliadau mewn ffordd ystyrlon.
- Mae polisïau ymddygiad sy'n **cael eu cyd-greu â staff, rhieni a dysgwyr** - yn hytrach na chael eu gorfodi - yn meithrin cydberchnogaeth ac yn cyd-fynd â gwerthoedd ysgolion.
- Mae **Byrddau Partneriaeth Dysgu Caerdydd** yn defnyddio dull aml-asiantaethol enghreifftiol, sy'n dod â gwasanaethau at ei gilydd i fynd i'r afael ag anghenion penodol ysgolion unigol.


**Camau a awgrymir**

1. **Cefnogi ysgolion i weithredu polisïau ymddygiad cydlynol** – Sicrhau bod disgwyliadau o ran ymddygiad a sancsiynau diffiniedig yn cael eu mynegi'n glir er mwyn gallu ymateb yn brydlon ac yn briodol, yn unol â dyletswyddau statudol i ddiogelu a hyrwyddo lles staff a disgyblion.
2. **Sefydlu dull cenedlaethol** - Datblygu fframwaith ymddygiad ar gyfer Cymru gyfan, sy'n nodi disgwyliadau clir a diffiniadau cyffredin i sicrhau cysondeb ar draws ysgolion ac awdurdodau lleol.
3. **Blaenoriaethu cydberthnasau a lles** - Buddsoddi mewn meithrin cydberthnasau cryf rhwng dysgwyr a staff, cefnogi datblygiad emosiynol, a hyrwyddo ffyniant amgylcheddau dosbarth, gan sicrhau bod staff a dysgwyr yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi.

4. **Cryfhau cyfleoedd dysgu proffesiynol** - Darparu hyfforddiant cenedlaethol, pecynnau cymorth, a chyfleoedd datblygu proffesiynol parhaus sy'n canolbwyntio ar reoli ymddygiad a diffiwsio sefyllfa, arferion sy'n ystyriol o drawma, a niwroamrywiaeth.
5. **Dyrannu adnoddau a chyllid** - Cynyddu a sefydlogi cyllid i gefnogi ymyriadau cynnar, staffio (gan gynnwys staff bugeiliol), a phartneriaethau allanol.
6. **Gwella ymyriadau cynnar a chydweithredu** - Blaenoriaethu diagnosis cynnar a chryfhau cydweithredu aml-asiantaethol i gefnogi dysgwyr yn holistaidd.
7. **Cefnogi gwaith pontio a mynediad at y cwricwlwm** - Gwella prosesau pontio dysgwyr a gwella mynediad at y cwricwlwm drwy well trefniadau i rannu data ac arferion cynhwysol.
8. **Grymuso arweinyddiaeth a diwylliant ysgolion** - Cefnogi arweinwyr a staff ysgolion drwy gymhellion, mesurau lles, a strwythurau cydweithredol i wneud penderfyniadau.
9. **Hyrwyddo arferion sy'n seiliedig ar dystiolaeth** - Buddsoddi mewn ymchwil yng Nghymru, rhannu arferion effeithiol, a chydnabod niwroamrywiaeth fel cryfder.
10. **Meithrin cydweithrediad ledled y system** - Cryfhau partneriaethau ar draws ysgolion, gwasanaethau a sectorau i wella cysondeb a chefnogaeth i ddysgwyr.

## Trafodaeth 2 – Dulliau o sicrhau cynhwysiant a lles

Agorodd y sesiwn â'r cwestiwn Slido canlynol:




**Y materion sy'n codi ar hyn o bryd**
Canolbwyntiodd y trafodaethau ar **effaith materion systemig a chymdeithasol ehangach** ar ymddygiad dysgwyr, gan gynnwys tlodi, trawma, cyfryngau cymdeithasol, gwahaniaethu ac ymyleiddio. Mae ysgolion yn teimlo bod disgwyl iddynt yn gynyddol weithredu fel y pedwerydd gwasanaeth brys, gan wneud iawn am

ddiffygion mewn gwasanaethau cyhoeddus ehangach, yn benodol iechyd a gwasanaethau cymdeithasol.

Codwyd pryderon sylweddol ynglŷn â'r **heriau emosiynol a chorfforol sy'n wynebu staff,** a'r hyfforddiant, yr oruchwyliaeth a'r gefnogaeth gyfyngedig sydd ar gael. Mae problemau recriwtio, cadw staff a chapasiti yn gyffredin, ynghyd â bylchau yn y cyfleoedd dysgu proffesiynol a ddarperir, yn enwedig ar gyfer staff cymorth. Tynnwyd sylw at hyn ymhellach yn y sylwadau Slido, lle cyfeiriodd cyfranogwyr at ddiffyg amser, capasiti a sgiliau i nodi ac ymateb i anghenion unigol dysgwyr.

Codwyd **heriau niwrowahaniaeth, ADY ac iechyd meddwl penodol**. Mae mwy o ddysgwyr a theuluoedd yn darganfod eu niwroamrywiaeth drostynt eu hunain, ond yn wynebu rhestrau aros hir am ddiagnosis meddygol neu i drefnu asesiadau preifat. Nid oes angen diagnosis meddygol er mwyn i ddysgwyr gael eu nodi fel rhai ag ADY. Y cam cyntaf yw cysylltu â chydlynydd ADY yr ysgol. Fodd bynnag, gall hyn roi pwysau ar yr ysgol.

Codwyd pryderon ynglŷn â'r **heriau wrth nodi ac ymateb i anghenion dysgwyr, gan gynnwys anghenion dysgu ychwanegol**, a all arwain at gefnogaeth annigonol. Gall hyn gael ei waethygu gan bwysau sydd ar y gweithlu a phwysau ariannol sydd, yn ei dro, yn effeithio ar yr adnoddau sydd ar gael i reoli'r broses ADY, darparu cymorth a diwallu anghenion dysgwyr.

Nodwyd hefyd fod anghenion dysgwyr ADY bellach yn fwy cymhleth, ac mae angen ymyriadau a gwasanaethau iechyd gwahanol nad ydynt ar gael ym mhob lleoliad. Mae CAMHS a gwasanaethau iechyd meddwl eisoes o dan bwysau. **Roedd yr angen i wella cysondeb cenedlaethol cydweithredu aml-asiantaethol a chryfhau'r broses o integreiddio iechyd, addysg a gwasanaethau cymdeithasol** yn thema gyffredin. Mae angen cyd-ddealltwriaeth hefyd o gynhwysiant a'r hyn y disgwylir ei gyflawni yn y rhan fwyaf o ysgolion ledled Cymru. Ystyrid bod y cydweithredu aml-asiantaethol yn anghyson ac yn dameidiog. Gall hyn olygu bod mynediad at wasanaethau cymorth i blant yn mynd yn broses adweithiol, yn hytrach nag yn rhagweithiol, gan y gall ymyriadau fod yn rhy hwyr.

O ran y cwricwlwm a'r amgylchedd dysgu, mae addysg emosiynol yn cael ei blaenoriaethu mewn rhai meysydd, ond **canlyniadau academaidd yw'r ffocws o hyd**. Mae dulliau cyflwyno'r Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles yn anghyson oherwydd diffyg hyfforddiant ac eglurder. Mae ymyriadau yn aml yn tarfu ar ddysgu; mae chwarae a lles yn cael eu tanbrisio. Codwyd materion hefyd ynglŷn â bylchau yn sgiliau addysgu a dysgu ymarferwyr, gan gynnwys ym meysydd iechyd meddwl a niwrowahaniaeth er mwyn nodi ac ymateb i anghenion dysgwyr, ynghyd â dealltwriaeth anghyson o gynhwysiant.

**Mae lleisiau pobl ifanc ar goll yn aml wrth wneud penderfyniadau**. Nid yw Erthygl 12 Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn [1]yn cael ei gweithredu'n gyson. Mae **cydberthnasau** rhwng staff a disgyblion, ac ar draws asiantaethau, yn hanfodol, ond yn aml yn esblygu'n anffurfiol yn hytrach na bod yn rhan allweddol o gynllunio systemau.

[1] Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP)

**Arferion effeithiol**

- ***Ynys Môn* –** dim Uned Cyfeirio Disgyblion, hybiau wedi'u lleoli mewn ysgolion uwchradd – yr un disgwyliadau ar waith ar gyfer pob hyb i sicrhau cysondeb.
- Gwaith **dan arweiniad CYDAG** i sefydlu system draws-ranbarthol i gefnogi ymyriadau cynnar mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg.
- Mae Cyngor Sir Ceredigion wedi mabwysiadu safbwynt **Paul Dix** ar ymddygiad trawsnewidiol mewn cydberthnasau.
- Mae'r sector addysg bellach yn cefnogi myfyrwyr o ran iechyd meddwl yn eithriadol o dda ac yn cynnig cymorth lle mae bylchau.
- **Staff arbenigol yn cynnal HMS** i roi gwybodaeth a phrofiad.
- Y Coleg Brenhinol – hyfforddiant ar leferydd a iaith, ond nid yw'n hysbys ledled Cymru.
- Gwaith ymgysylltu yng Nghaerdydd gyda phlant sy'n cael eu haddysg yn y cartref, dan arweiniad Gwasanaeth Ieuenctid Caerdydd yng Nghaerau a Threlái.
- Menter Alberta Family Wellness - yn darparu mynediad at adnoddau am ddim ar wyddoniaeth datblygiad cynnar yr ymennydd a'r cysylltiad ag iechyd meddwl oedolion.
- Model clwstwr iechyd a lles sy'n cael ei ddefnyddio mewn rhai ardaloedd e.e. Clwstwr Gofal Sylfaenol De Orllewin Caerdydd.
- Gwaith adferol e.e. Partneriaeth Gweithredu Adferol Cymru.
- Defnyddio data SHRN i ddatblygu darpariaeth cwricwlwm sy'n canolbwyntio ar gydberthnasau iach a chyfathrebu; cyfeiriwyd hefyd at hyfforddiant Thrive.


**Camau a awgrymir**


1. **Datblygu dangosfwrdd cenedlaethol** i wella sut y rhennir ac y cydlynir data ar draws meysydd addysg, iechyd a gwasanaethau cymdeithasol. Archwilio cyfleoedd drwy Raglen Bartneriaeth Gwella Ysgolion.
2. **Egluro rolau a chyfrifoldebau –** mae'r ffiniau rhwng gwahanol wasanaethau a'r hyn y maent yn ei ddarparu yn aneglur ar hyn o bryd. Sefydlu memorandwm cyd-ddealltwriaeth ar draws rhanddeiliaid (ysgolion, awdurdodau lleol, iechyd, rhieni).
3. **Arweinwyr i feithrin diwylliant cynhwysol mewn ysgolion,** yn seiliedig ar wydnwch a pherthyn. Dylai hyn ystyried anghenion staff a dysgwyr yn llawn a darparu cymorth lles.
4. **Buddsoddi mewn cyfleoedd dysgu proffesiynol cenedlaethol ar gyfer pob aelod staff,** gan gynnwys rolau nad ydynt yn ymwneud ag addysgu, â ffocws penodol ar ddulliau sy'n ystyriol o drawma, niwroamrywiaeth, datblygiad plant, ADY a meithrin perthynas; darparu cymorth emosiynol i staff, yn enwedig mewn lleoliadau lle mae'r anghenion yn fawr. Buddsoddi mewn rhannu arferion da/llwyddiant ar draws clystyrau.
5. **Parhau i ysgogi dull ysgol gyfan o sicrhau iechyd meddwl a lles.** Defnyddio adnoddau mapio ac i adnabod anghenion yn gynnar er mwyn olrhain a theilwra ymyriadau. Gwella mynediad at CAMHS a chymorth aml-asiantaethol.

6. **Gwella hyblygrwydd cyllid ac eglurder polisi**, mewn perthynas â chynhwysiant, addysg heblaw yn yr ysgol, a llwybrau galwedigaethol. Archwilio'r opsiynau ar gyfer cefnogi disgyblion sy'n ei chael yn anodd yn y brif ffrwd, ac nad oes angen darpariaeth ysgol arbennig arnynt.
7. **Blaenoriaethu dulliau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn** gan gynnwys y broses ADY, ymgysylltu ystyrlon y tu hwnt i gynghorau myfyrwyr, hyrwyddo llythrennedd digidol a sgiliau bywyd craidd, gweithredu Erthygl 12 Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ar draws ysgolion, ac ymgorffori ymdeimlad o berthyn a chyfathrebu clir i sicrhau bod dysgwyr yn ymwybodol o'r cymorth sydd ar gael gan ysgolion.
8. **Diweddaru sgiliau a chefnogi rhieni**, yn enwedig mewn perthynas â niwrowahaniaeth a gorbryder (Osgoi Ysgol am Resymau Emosiynol) a diogelwch digidol. Cryfhau modelau o ysgolion cymunedol. Gwella strategaethau cyfathrebu i rannu llwyddiant a meithrin ymddiriedaeth.
9. Sicrhau **cydraddoldeb rhwng llwybrau academaidd ac anacademaidd**. Ehangu opsiynau'r cwricwlwm i gynnwys dysgu galwedigaethol, awyr agored a chymunedol. Hyrwyddo llythrennedd a sgiliau bywyd fel elfennau sylfaenol i lwyddiant hirdymor.

## Trafodaeth 3: Teuluoedd a chymunedau

Agorodd y sesiwn â'r cwestiwn Slido canlynol:






### Y materion sy'n codi ar hyn o bryd

Cododd y trafodaethau faterion ynghylch y **dirywiad yn y berthynas rhwng rhai rhieni ac ysgolion** ar ôl y pandemig, a nodwyd dirywiad yn y parch at y proffesiwn a mwy o sgeptigiaeth a gelyniaeth ymhlith rhieni. Mae profiadau negyddol rhieni o addysg, yn enwedig mewn ysgolion uwchradd, yn ei gwneud yn anoddach meithrin perthynas. Mae'r cyfryngau cymdeithasol yn cynyddu'r sylw a roddir i gwynion a chamwybodaeth, sydd yn aml yn tanseilio ymdrechion ysgolion. Mae yna leiafrif

ymhlith rhieni sydd â disgwyliadau afrealistig o ysgolion, yn aml. Mae hyn yn cael ei amlygu yng nghanlyniadau Slido uchod, sy'n dangos bod cyfranogwyr yn teimlo bod diffyg ymddiriedaeth ac ymgysylltiad gan rieni â staff addysg.

Codwyd materion ynglŷn ag **oedi cyn cyfathrebu neu gyfathrebu aneffeithiol** am ymddygiad neu broblemau dysgwyr. Mae adnoddau digidol fel ClassCharts yn cael eu tanddefnyddio neu eu hanwybyddu gan rai rhieni. Mae angen cyswllt rhagweithiol, cadarnhaol, e.e. dathlu llwyddiant a darparu diweddariadau rheolaidd. Ymhlith y rhwystrau i ymgysylltu mae iaith, trawma, tlodi, a diffyg ymddiriedaeth.

Mae cylchoedd cyllido byrdymor yn effeithio ar drefniadau cynllunio a staffio hirdymor. Mae swyddogion ymgysylltu â theuluoedd yn effeithiol ond yn cael eu tanariannu, ac yn aml ar gontractau tymor byr. Mae **colli rolau ategol a bugeiliol** oherwydd toriadau mewn cyllidebau yn cynyddu'r pwysau ar athrawon.

Mae'r **argyfwng costau byw** yn effeithio ar deuluoedd a staff ysgolion. Mae gan rieni sydd â mwy nag un swydd lai o amser i ymgysylltu. Mae cynnydd yn y nifer sy'n dewis addysgu eu plant gartref ac mae mwy o broblemau presenoldeb, yn enwedig bob ochr i gyfnod gwyliau. Mae straen iechyd meddwl ar deuluoedd a dysgwyr yn cael ei waethygu gan y diffyg cymorth allanol.

Mae'r defnydd o ffonau symudol yn gysylltiedig â phroblemau ymddygiad a iechyd. Mae'r **polisïau yn anghyson o ran gwahardd ffonau a rheoli ymddygiad**. Yn aml, mae plant yn adlewyrchu ymddygiad rhieni, gan gynnwys ymddygiad ymosodol a diffyg ymddiriedaeth.

Mae heriau yn codi wrth bontio o addysg gynradd i addysg uwchradd, ac o addysg bellach i addysg uwch neu fyd gwaith. Mae diffyg cefnogaeth i ddysgwyr niwroamrywiol a'u teuluoedd. Mae rhwystrau diwylliannol a ieithyddol i deuluoedd amlieithog.

**Arferion effeithiol**

- Mae **boreau coffi / digwyddiadau cymdeithasol** sy'n cynnwys rhieni, dysgwyr a staff yn cryfhau cysylltiadau rhwng yr ysgol a'r teulu.
- Mae **cyswllt cadarnhaol rheolaidd â rhieni** (e.e. galwadau ffôn ar ddydd Gwener, cardiau post i'r cartref) yn hybu'r berthynas a morâl.
- Mae swyddogion ymgysylltu â theuluoedd yn darparu **cefnogaeth gyson i deuluoedd**, ond mae angen cyllid hirdymor sicr.
- Mae **Rhaglen Gwella Gwyliau'r Haf** yn defnyddio cyfleusterau ysgol yn ystod y gwyliau ar gyfer gweithgareddau a phrydau bwyd.
- Mae **Healthy Community** a **Walk with Me** (elusen yn Llundain) yn cynnig cyswllt a chefnogaeth y tu hwnt i academyddion.
- Mae awdurdod lleol Caerdydd yn darparu **cyfleoedd dysgu allgyrsiol i rieni** ar faterion fel cyffuriau/alcohol/iechyd rhywiol, gan ddyfarnu tystysgrifau am gymryd rhan.
- Mae ysgolion arbennig yn defnyddio **cyfyngiadau cadarnhaol** i helpu plant i reoli ymddygiad heriol mewn ffordd adeiladol.

**Camau a awgrymir**

1. **Cryfhau partneriaethau rhwng yr ysgol a'r teulu** - Drwy gytundebau ffurfiol i sicrhau ymrwymiad rhieni i gefnogi disgwyliadau o ran ymddygiad a'i orfodi, ynghyd â chynulliadau anffurfiol, ac arferion adferol i sicrhau cysondeb rhwng y cartref a'r ysgol.
2. **Cymorth ac addysg i rieni** - Grymuso rhieni â chyfleoedd dysgu, canllawiau rhianta, a chefnogaeth yn ystod cyfnodau addysgol allweddol o drawsnewid.
3. **Ysgolion bro** - Trawsnewid ysgolion yn hybiau cymunedol sy'n cynnig gwasanaethau cofleidiol, defnydd estynedig o gyfleusterau, a rhaglenni gwyliau.
4. **Datblygu'r gweithlu -** Buddsoddi mewn rolau sy'n cefnogi ymgysylltu â theuluoedd, hyrwyddo amrywiaeth o fewn y gweithlu, a gwella datblygiad staff, a phroffesiynoli'r rolau hynny.
5. **Ymyriadau cynnar a chynhwysiant** - Canolbwyntio ar adnabod anghenion yn gynnar, cynllunio cynhwysol, a chymorth iechyd meddwl estynedig i deuluoedd.
6. **Cyfathrebu a thechnoleg** - Gwella ac amrywio dulliau cyfathrebu er mwyn deall a chysylltu'n well â chymunedau rhieni.

# Trafodaethau mewn perthynas ag ymddygiad mewn colegau

Roedd cysondeb yn nifer o'r themâu mewn perthynas ag ysgolion a cholegau, o ran yr heriau cyfredol ac enghreifftiau o arferion effeithiol. Yn eu plith roedd pryderon cyffredin ynghylch rheoli ymddygiad, lles staff, ac ymgysylltu â rhieni, yn ogystal â strategaethau cyffredin sydd wedi profi'n llwyddiannus, megis dulliau adferol, cyfathrebu clir ynghylch disgwyliadau, a gweithio ar y cyd â theuluoedd a phartneriaid allanol.

## Trafodaeth 1: Arweinyddiaeth ac addysgu

**Y materion sy'n codi ar hyn o bryd**
Codwyd materion allweddol ynglŷn â **thanddatblygiad sgiliau galwedigaethol** a bylchau yn y cwricwlwm. Roedd yr adborth yn tynnu sylw at y flaenoriaeth a roddir i ddatblygiad academaidd ar draul dysgu cymdeithasol/emosiynol.

Codwyd pryderon ynglŷn ag **effaith negyddol ymddygiadau a ddysgir yn y cartref ac ar y cyfryngau cymdeithasol** ar fyfyrwyr, a'r ffaith bod ymddygiad gwael yn cael ei dderbyn fel y norm newydd h.y. iaith wael. Roedd y sylwadau a wnaed hefyd yn adlewyrchu'r ffaith y gall patrymau gwaith rhieni effeithio ar lefelau presenoldeb.

Yn ogystal, canolbwyntiodd y trafodaethau ar **effaith cyswllt dysgu cyfyngedig** ar ymddygiad, h.y. wythnosau coleg 3 diwrnod ac amserlenni cymhleth, ynghyd â'r opsiynau ôl-16 anacademaidd cyfyngedig. Codwyd pryderon hefyd ynglŷn a phwysau cyllidol i ariannu cefnogaeth ar gyfer ADY, gydag annigonolrwydd y cydweithredu aml-asiantaethol a heriau i sicrhau cymorth lleferydd/iaith.

**Codwyd cyfleoedd dysgu proffesiynol i ymarferwyr fel elfen allweddol** yn y methiant i esblygu mewn ymateb i'r heriau ymddygiad. Nodwyd bylchau penodol hefyd yn y cyfleoedd dysgu proffesiynol sy'n canolbwyntio ar les cymdeithasol ac emosiynol.

**Arferion effeithiol**

- **Buddsoddi mewn strategaethau meithrin perthynas –** bod ymarferwyr yn osgoi tynnu sylw at ymddygiad myfyrwyr yn gyhoeddus ac yn canolbwyntio ar eu deall er mwyn gwella'r ymgysylltu.
- **Modelau gofal bugeiliol cryf** e.e. Coleg Pen-y-bont ar Ogwr, i gefnogi lles myfyrwyr.
- Mae **cefnogaeth gan brif berson cyswllt penodol** (nid rhiant o reidrwydd) yn darparu cefnogaeth emosiynol ychwanegol i fyfyrwyr.
- **Mae arweinyddiaeth weladwy a chydweithredol** yn helpu i adeiladu amgylchedd dysgu cefnogol a chadarnhaol.
- Mae **amgylcheddau dysgu naturiol**, e.e. rhaglen ar ddull ysgolion coedwig, yn cael effaith gadarnhaol ar les ac ymgysylltu.
- Mae **modelau rôl cadarnhaol**, sy'n annog myfyrwyr i dderbyn methiant a thyfu yn ei sgil, yn meithrin gwydnwch.

- Mae **polisïau ymddygiad cynhwysol** a ddatblygir drwy fewnbwn staff, rhieni a myfyrwyr yn fwy effeithiol ac yn cael derbyniad mwy cadarnhaol.

**Camau a awgrymir**

1. **Cyfathrebu/Negeseuon allweddol** - Pwysleisio pwysigrwydd presenoldeb fel sylfaen i lwyddiant academaidd.
2. **Ailwerthuso modelau cyllido**, yn enwedig mewn perthynas ag ADY a gwasanaethau cymorth.
3. **Meithrin diwylliant o ymddiriedaeth**, i arfogi sefydliadau dysgu i wneud penderfyniadau ynghylch addysgu a chefnogaeth.
4. **Proffesiynoli ac ariannu rolau arbenigol** (e.e. swyddogion lles, staff bugeiliol).
5. **Ymestyn darpariaeth dysgu proffesiynol** i gynnwys datblygiad cymdeithasol/emosiynol ac arferion sy'n ystyriol o drawma.
6. **Creu amgylcheddau lles ac anogaeth gweithredol,** lle gall myfyrwyr fynegi eu hunain yn ddiogel ac yn gadarnhaol.
7. **Cydlynu ledled y system –** Datblygu system ar gyfer Cymru gyfan i drosglwyddo data dysgwyr, yn arbennig ar gyfer myfyrwyr ADY.
8. **Strategaethau yn Seiliedig ar Ymchwil -** Alinio strategaethau ar draws awdurdodau lleol ar sail tystiolaeth

## Trafodaeth 2 – Dulliau o sicrhau cynhwysiant a lles

**Y materion sy'n codi ar hyn o bryd**
Tynnodd aelodau'r grŵp sylw at y ffaith bod llawer o fyfyrwyr yn mynd i mewn i addysg bellach â phrofiad blaenorol negyddol o addysg.

Codwyd pryderon allweddol ynglŷn â'r **broses bontio ar ôl gadael darpariaeth CAMHS**, oherwydd yr amseroedd aros estynedig i gael mynediad at wasanaethau oedolion, gan greu gwagle o ran cymorth. Codwyd materion ynghylch **cyfyngiadau rhai strategaethau iechyd meddwl** hefyd, gan nodi nad yw therapi gwybyddol ymddygiadol yn addas ar gyfer pob angen iechyd meddwl, yn enwedig materion sy'n gysylltiedig â thrawma.

Roedd yr adborth hefyd yn ategu'r ffaith nad yw **sefydliadau addysg bellach wedi'u harfogi i ymdrin â thrawma cymhleth neu anghenion seicolegol dwfn** - cyfrifoldeb y sector iechyd yw hyn. Yn aml, disgwylir i ymarferwyr helpu gyda materion iechyd meddwl heb yr hyfforddiant angenrheidiol. Codwyd pryderon hefyd ynglŷn â'r **nifer cynyddol o fyfyrwyr sy'n rhoi hunan-ddiagnosis o gyflyrau iechyd meddwl,** gan gymhlethu'r llwybrau cymorth ymhellach.

**Roedd y cyfryngau cymdeithasol yn cael eu hystyried yn un o'r prif elfennau sy'n cyfrannu at broblemau iechyd meddwl** ac ynysu cymdeithasol, ond i rai myfyrwyr, mai dyma eu hunig gyswllt cymdeithasol.

**Arferion effeithiol**

- Yn aml, mae colegau addysg bellach yn darparu **cymorth iechyd meddwl interim cryf**, gan bontio'r bwlch rhwng CAMHS a gwasanaethau oedolion.
- **Mae rhai colegau yn cyflogi cwnselwyr** ac yn cynnig gwasanaethau galw heibio. Fodd bynnag, mae'r gefnogaeth hon yn dod i ben pan fydd myfyrwyr yn gadael addysg bellach.
- Cydnabyddir **rolau Person Dynodedig** yn ddull effeithiol o gefnogi lles myfyrwyr.
- **Ymgysylltu rhagweithiol**: Mae colegau sy'n cymryd camau rhagweithiol i gefnogi iechyd meddwl myfyrwyr yn gweld canlyniadau gwell.

**Camau a awgrymir**

1. **Cyflwyno sgiliau bywyd hanfodol i'r cwricwlwm**, megis diogelwch ar-lein, ymwybyddiaeth o iechyd meddwl a rheoli emosiynau er mwyn gofalu am les a gwydnwch hirdymor.
2. **Darparu cefnogaeth emosiynol i bawb**: staff yn ogystal â myfyrwyr.
3. **Diffinio disgwyliadau clir ar gyfer ymarferwyr** o ran eu cyfrifoldebau i gefnogi iechyd meddwl.
4. **Sicrhau bod cymorth yn cyrraedd y rhai yn yr "haen ganol"** sydd yn aml yn cael eu hesgeuluso.
5. **Rheoleiddio cytbwys ar y defnydd o'r cyfryngau cymdeithasol** - gall hefyd fod yn ofod hanfodol ar gyfer hunan-fynegiant a chysylltu.
6. **Newid yn arddull arweinyddiaeth** - mwy cynhwysol, empathig a chanolbwyntio'n fwy ar les.
7. **Darparu mannau gwyrdd**: Cynnwys mwy o amgylcheddau naturiol a gweithgareddau sy'n canolbwyntio ar les fel rhan o'r profiad dysgu.
8. **Buddsoddi mewn gwella llythrennedd** i wella sgiliau bywyd, cyfleoedd cyflogadwyedd a iechyd meddwl.

## Trafodaeth 3: Teuluoedd a chymunedau

**Y materion sy'n codi ar hyn o bryd**
**Cafodd ymgysylltu â'r gymuned ehangach** ei nodi fel mater allweddol i addysg bellach o ran sicrhau cysondeb strategaeth, gan nad yw colegau yn gwasanaethu'r gymuned leol yn yr un modd ag ysgolion cynradd ac uwchradd.

Amlygwyd **diffyg cyfranogiad rhieni** yn un o'r prif faterion; mae rhai rhieni yn ymddieithrio oddi wrth addysg eu plentyn neu'n ddifater yn ei gylch. Yn ogystal, nodwyd bod ymgysylltiad â rhieni yng nghyd-destun addysg bellach yn gyfyngedig yn aml am na all colegau gysylltu â rhieni / gofalwyr heb ganiatâd y myfyriwr.

Codwyd nifer o faterion mewn perthynas â'r **argyfwng ariannol a'r ansefydlogrwydd economaidd ehangach**, ac mae rhai teuluoedd yn dibynnu ar y ffaith bod eu plentyn mewn addysg bellach i fod yn gymwys ar gyfer eu budd-daliadau. Tynnwyd sylw hefyd at y ffaith bod gan lawer o fyfyrwyr swyddi rhan-amser, sy'n effeithio ar eu lefelau presenoldeb a'u hymgysylltiad.

Roedd y pryderon ynghylch y cyfnod ar ôl addysg bellach yn canolbwyntio ar yr **anawsterau a brofid gan fyfyrwyr wrth bontio o addysg bellach** i addysg uwch neu fyd gwaith, â chefnogaeth gyfyngedig.

**Codwyd materion pwysig hefyd yn ymwneud ag adnoddau,** o ran y diffyg staff dynodedig neu wirfoddolwyr sy'n canolbwyntio ar ymgysylltu â theuluoedd a lles.

### Arferion effeithiol

- **Negeseuon cadarnhaol**: Mae cysylltu â rhieni i rannu newyddion da am eu plentyn yn helpu i feithrin ymddiriedaeth ac ymgysylltiad.
- **Hyfforddwyr bugeiliol ac ymgysylltu**: Mae'r rolau hyn mewn lleoliadau addysg bellach yn helpu i gynnal lefelau presenoldeb a chefnogi lles myfyrwyr.
- **Mentrau dysgu i deuluoedd**: Mae'r rhaglenni hyn yn helpu i feithrin ymdeimlad o gymuned a chyd-gyfrifoldeb dros ddysgu.
- **Cynnwys prif berson cyswllt penodol**: Gall ymgysylltu â ffigurau dylanwadol ym mywyd myfyriwr (nid rhieni yn unig) wella'r gefnogaeth.
- **Addysgu rhieni**: Mae helpu rhieni i ddeall sut i gefnogi eu plentyn, yn enwedig o ran defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol, yn effeithiol.
- **Mae rhaglenni pontio cymunedol a dysgu teuluol** yn meithrin ymgysylltiad.
- Mae **digwyddiadau sy'n dathlu llwyddiant** a diwrnodau agored yn meithrin rhwydweithiau cymorth.
- **Mae interniaethau cefnogol ac ymwneud ag elusennau** yn gwella profiad dysgwr.

### Camau a awgrymir

1. **Ailfrandio addysg bellach:** Newid canfyddiad y cyhoedd o addysg bellach fel llwybr i gyflogadwyedd a llwyddiant, nid opsiwn i syrthio'n ôl arno.
2. **Cynnal uwchgynadleddau sy'n cynnwys dysgwyr a theuluoedd** i lywio strategaethau ar gyfer y dyfodol.
3. **Cyflwyno rolau fel swyddogion ymgysylltu â theuluoedd** i gryfhau cysylltiadau rhwng y cartref a'r coleg.
4. **Addysg sgiliau bywyd:** Cynnwys llythrennedd ariannol a sgiliau bywyd hanfodol eraill yn y cwricwlwm, a addysgir gan arbenigwyr yn hytrach nag ymarferwyr.
5. **Integreiddio gwasanaethau cymunedol mewn colegau** i greu model ar gyfer hybiau cymunedol.
6. **Sylw cadarnhaol yn y cyfryngau:** Defnyddio'r cyfryngau i dynnu sylw at werth a llwyddiant addysg bellach, gan danseilio stereoteipiau negyddol.

## Elfennau tebyg a nodwyd yn y cyfarfod Bord Gron

Cynhaliwyd y cyfarfod Bord Gron bythefnos cyn yr Uwchgynhadledd. Crynhowyd prif ganfyddiadau'r cyfarfod Bord Gron mewn adroddiad interim a rannwyd cyn yr Uwchgynhadledd ei hun. Y prif ganfyddiadau hynny oedd sail trafodaethau'r Uwchgynhadledd ac, wrth dynnu canfyddiadau'r ddau ddigwyddiad at ei gilydd, rydym wedi tynnu sylw isod at feysydd cyffredin rhwng y trafodaethau.

Roedd y cyfarfod Bord Gron a'r Uwchgynhadledd yn galw, fel ei gilydd, am weithredu fel a ganlyn:

**Cysondeb a fframweithiau cenedlaethol**

- Roedd y ddau yn galw am strategaeth genedlaethol, gyson i fynd i'r afael ag ymddygiad dysgwyr, gan nodi disgwyliadau safonol ledled Cymru.
- Pwyslais ar ddiffiniadau cyffredin, casglu data, a safonau adrodd i sicrhau eglurder ar draws lleoliadau ac er mwyn gallu eu cymharu.

**Arferion ataliol ac sy'n ystyriol o drawma**

- Cysondeb amlwg o ran yr angen am ddulliau sy'n ystyriol o drawma, dealltwriaeth o Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod, ac ymyriadau cynnar.
- Tynnodd y ddau sylw at bwysigrwydd strategaethau ataliol yn hytrach na mesurau adweithiol, gan gynnwys hyfforddiant staff ar ddiffiwsio sefyllfa ac ar gyfyngiadau diogel.

**Dysgu proffesiynol a datblygu'r gweithlu**

- Ffocws cyffredin ar deilwra dulliau gweithredu ar gyfer ymarferwyr a staff nad ydynt yn addysgu.
- Pwyslais ar barhau â hyfforddiant mewn rheoli ymddygiad, niwroamrywiaeth, a lles emosiynol.
- Cydnabod yr angen i gefnogi lles staff a mynd i'r afael â heriau recriwtio a chadw staff.

**Cydweithredu aml-asiantaethol a rhannu data**

- Pwysleisiodd y ddwy drafodaeth bwysigrwydd gwaith aml-asiantaethol, yn enwedig rhwng meysydd addysg, iechyd a gofal cymdeithasol.
- Galw am well trefniadau rhannu data i gefnogi gwaith pontio, adnabod anghenion yn gynnar, a darparu cymorth holistaidd i ddysgwyr.

**Ymgysylltu â'r gymuned a theuluoedd**

- Cysondeb amlwg o ran sylwadau am ysgolion bro a gwasanaethau cofleidiol.
- Pwyslais ar ymgysylltu â rhieni, gan gynnwys cymorth rhianta, diogelwch digidol, a lles emosiynol.
- Cydnabod rôl ysgolion fel hybiau cymunedol.

**Llais y dysgwr a chynhwysiant**

- Mae'r ddwy drafodaeth yn tynnu sylw at bwysigrwydd llais y disgybl, gan gynnwys sefydlu gweithgorau gyda phobl ifanc.
- Pwyslais ar arferion cynhwysol, perthyn, a chydnabod niwroamrywiaeth fel cryfder.

**Y cwricwlwm a llwybrau i'w cymryd**

- Diddordeb y ddwy drafodaeth yn ehangu opsiynau'r cwricwlwm, gan gynnwys dysgu galwedigaethol a chymunedol.
- Canolbwyntio ar sgiliau bywyd craidd, llythrennedd digidol, a sylfeini llythrennedd/rhifedd.

**Dyrannu adnoddau a chyllid**

- Negeseuon cyffredin ar yr angen am fwy o gyllid, a hwnnw'n gyllid parhaus, yn enwedig ar gyfer staff cymorth, hyfforddiant arbenigol, a gwasanaethau ataliol.
- Galw am fodelau cyllido hyblyg sy'n cefnogi cynllunio hirdymor ac ymreolaeth leol.

## Camau i'w cymryd ar unwaith

25. Yn syth ar ôl yr Uwchgynhadledd, rhyddhaodd Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad i'r wasg a datganiad ysgrifenedig yn canolbwyntio ar bum cam i'w cymryd ar unwaith i fynd i'r afael â phroblemau ymddygiad brys ac i gefnogi staff i weithredu'n gyflym i ddechrau gwneud gwahaniaeth.

26. Dyma'r diweddaraf:

- **Creu strwythurau i gefnogi gweithio aml-asiantaethol**
  Yn dilyn y cyfarfod Bord Gron, bydd Ysgrifennydd y Cabinet yn cwrdd â Chomisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru i drafod Rhaglen Ysgolion Heddlu Cymru.

- **Diweddaru'r canllawiau i ysgolion**
  Bydd y gwaith cychwynnol i ddatblygu'r canllawiau yn cael ei weithredu gan ddau fforwm newydd yn canolbwyntio ar ffonau symudol mewn ysgolion, a materion yn ymwneud â gwahardd dysgwyr a'u cadw yn yr ysgol ar ddiwedd y dydd. Lansiwyd y ddau fforwm cyn diwedd tymor yr haf, gan gynnwys rhanddeiliaid allweddol ac ymarferwyr. Bydd cynlluniau ar gyfer cynhadledd genedlaethol, yn benodol ar gyfer ymarferwyr yn ystod tymor yr hydref, yn darparu cyfleoedd pellach i gyd-greu canllawiau newydd mewn partneriaeth â'r proffesiwn.

- **Sefydlu system ar gyfer rhannu arferion gorau**
  Roedd y mewnwelediad o'r cyfarfod Bord Gron a'r Uwchgynhadledd yn tynnu sylw at ystod o ddulliau o rannu arferion gorau. Ar hyn o bryd mae swyddogion yn archwilio'r protocolau a'r canllawiau presennol e.e. protocol Arfau mewn Ysgolion a Lleoliadau Addysg Awdurdod Lleol Caerdydd, fel glasbrint posibl i'w addasu gan awdurdodau lleol eraill ledled Cymru.

- **Datblygu cyfleoedd dysgu proffesiynol ynghylch ymddygiad**
  Bydd swyddogion yn archwilio cyfleoedd i gydymffurfio â gwaith y Corff Cymorth Dysgu Proffesiynol ac Arweinyddiaeth Cenedlaethol newydd i sicrhau bod gan bob ymarferydd fynediad at gyfleoedd dysgu proffesiynol cyson o ansawdd uchel, yn enwedig mewn perthynas â thechnegau rheoli ymddygiad, diffiwsio sefyllfa ac ymyriadau.

- **Sicrhau bod diffiniadau cyson o ddigwyddiadau a'u bod yn cael eu cofnodi mewn ffordd gyson, ynghyd â set ddata glir ar lefel awdurdod lleol a Chymru.**
  Bydd yr ymrwymiad hwn yn cyd-fynd yn uniongyrchol â blaenoriaethau cenedlaethol sy'n sail i'r Rhaglen Bartneriaeth Gwella Ysgolion.

27. Mewn ymateb i adborth cryf yn yr Uwchgynhadledd ynglŷn â chynyddu cyfraniad dysgwyr at y rhaglen waith ar ymddygiad, mae ymgysylltiad cynnar eisoes ar y gweill gyda Senedd Ieuenctid Cymru a Phlant yng Nghymru.

28. Mae'r cyfarfod Bord Gron a'r Uwchgynhadledd yn fan cychwyn ar broses bartneriaeth i fynd i'r afael â phroblemau ymddygiad mewn ysgolion a cholegau

29. Ar ôl cyhoeddi’r adroddiad hwn, bydd swyddogion yn cynnal dadansoddiad manwl pellach i dynnu ynghyd ganfyddiadau allweddol yr arolwg cenedlaethol o ymddygiad, y cyfarfod Bord Gron, a'r Uwchgynhadledd, er mwyn datblygu cynllun manwl i gymryd y pum cam ar unwaith.

# Atodiad A

**Uwchgynhadledd Ymddygiad Genedlaethol - Agenda**

**22.05.25, Y Deml Heddwch, Caerdydd**

| | | |
|---|---|---|
| 10:10 | Croeso a chyflwyniad<br>Dr Glenda Jones | Welcome and introduction<br>Dr Glenda Jones |
| 10:15 | Gair o groeso, gan gynnwys diweddariad ar y Gyfarfod bord gron ar drais a diogelwch a'r camau nesaf.<br>Lynne Neagle AS<br>Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg | Welcome remarks, including an update on the Roundtable on violence and safety and the next steps.<br>Lynne Neagle MS<br>Cabinet Secretary for Education |
| 10:25 | Fideo dysgwyr | Learner video |
| 10:30 | Cyflwyniad<br>Adolygiad Thematig Estyn<br>Catherine Evans, HMI | Presentation<br>Estyn Thematic Review<br>Catherine Evans, HMI |
| 11:00 | Cyflwyniad<br>Ymchwil Prifysgol Bangor<br>Yr Athro Carl Hughes | Presentation<br>Bangor University Research<br>Professor Carl Hughes |
| 11:20 | Sesiwn holi ac ateb<br>Ymchwil Estyn/Prifysgol Bangor | Question and answer session<br>Estyn/Bangor University Research |
| 11:30 | Lluniaeth | Refreshments |
| 11:40 | Trafodaeth 1 - Arweinyddiaeth ac Addysgu | Discussion 1 - Leadership & Teaching |
| 12:30 | Adborth | Feedback |
| 12:50 | Cinio | Lunch |
| 13:30 | Croeso'n ôl<br>Vikki Howells AS<br>Y Gweinidog Addysg Bellach ac Uwch | Welcome back<br>Vikki Howells MS<br>Minister for Further & Higher Education |
| 13:35 | Trafodaeth 2 - Dulliau o gynhwysiant a lles | Discussion 2 - Approaches to inclusion and well-being |
| 14:20 | Adborth | Feedback |
| 14:40 | Lluniaeth | Refreshments |
| 14:50 | Trafodaeth 3 – Pontio'r bwlch, gweithio gyda theuluoedd a chymunedau | Discussion 3 - Bridging the gap, working with families and communities |
| 15:40 | Adborth | Feedback |
| 15:55 | Sylwadau i gloi<br>Lynne Neagle AS<br>Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg | Closing remarks<br>Lynne Neagle MS<br>Cabinet Secretary for Education |
| 16:00 | Cloi | Close |

ADDYSG CYMRU
EDUCATION WALES
cenhadaeth ein cenedl | our national mission

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Atodiad B

## Uwchgynhadledd Ymddygiad Genedlaethol – Rhestr mynychwyr

| Cyfenw | Enw cyntaf | Sefydliad |
|---|---|---|
| Akmal | Batool | Coleg Catholig Dewi Sant |
| Amos | Kane | Coleg Catholig Dewi Sant |
| Bailey | Rob | UNISON Cymru |
| Beddoe | Rachel | Plant yng Nghymru |
| Bennett | Lorna | Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| Biggs | Gail | Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-Bont ar Ogwr |
| Boxall | Kirsty | Llywodraeth Cymru |
| Britton | Chris | Ysgol y Deri |
| Brookmyre | Andrew | Llywodraeth Cymru |
| Brown | Louise | Llywodraeth Cymru |
| Buckley | Viv | Colegau Cymru |
| Butler | Neil | NASUWT |
| Callaghan | Linda | Cyngor Sir Fflint |
| Chicken | Sarah | Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant |
| Churm | Alice | Coleg Cambria |
| Cifuentes | Rocio | Comisiynydd Plant Cymru |
| Clarke | Lisa | Llywodraeth Cymru |
| Cole | Keri | Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili |
| Connolly | Samantha | Cyngor Sir Ceredigion |
| Cooper | Jonathan | Llywodraeth Cymru |
| Cooper | Sarah | Llywodraeth Cymru |
| Davies | Gaynor | Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf |
| Davies | Huw | Ysgol Gyfun Llangefni |
| Davies | Sharon | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| Davies | Simon | Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe |
| Davis | Christopher | Cyngor Sir Powys |
| Deane | Gail | Llywodraeth Cymru |
| Doel | Laura | NAHT Cymru |
| Duff | George | Llywodraeth Cymru |
| Durbridge | James | Ysgol Dyffryn Aman |
| Edward Ellis | Ffion | Cyngor Gwynedd ac Ynys Môn |
| Edwards | Cathrin | Cyngor Sir Ceredigion |
| Edwards | Kelly | Colegau Cymru |
| Edwards | Nicola | Llywodraeth Cymru |
| Ellis | Sarah | Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili |
| Evans | Catherine | Estyn |
| Evans | Owen | Estyn |
| Fennessy | Marc | Cyngor Sir Fynwy |
| Fitzgerald | Noel | Ysgol Pen Coch |

| | | |
|---|---|---|
| Fitzpatrick | Nicola | NEU |
| Fordwhalley | Scott | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Furminger | Sarah | Llywodraeth Cymru |
| Griffiths | Rebecca | Llywodraeth Cymru |
| Gunter | Martyn | Llywodraeth Cymru |
| Haarhoff | Georgina | Llywodraeth Cymru |
| Hackett | Lynne | UNISON |
| Haithcock | Richard | Llywodraeth Cymru |
| Hoey | Claire | Ysgol Ifor Hael |
| Hooson | David | Llywodraeth Cymru |
| Hopkin | Lloyd | Llywodraeth Cymru |
| Hopkins | Joanne | Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| Hopper | Lauren | Llywodraeth Cymru |
| Houlston Clarke | Julia | Partneriaeth Gweithredol Adferol Cymru |
| Houston | Jane | Llywodraeth Cymru |
| Howells | Vikki | Llywodraeth Cymru |
| Hughes | Carl | Prifysgol Bangor |
| Hutchinson | Hugo | Ysgol Gyfun Trefynwy |
| Hywel | Gareth | Uned Cyfeirio Disgyblion Plas Derwen |
| Ifans | Dafydd | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Jenkins | Julie | Ysgol Gynradd Pencoed |
| Jenkins | Karen | Cyngor Sir Powys |
| Jermin | Sara | Comisiynydd Plant Cymru |
| Johnson | Ilona | Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| Jones | Ceri | Cyngor Rhondda Cynon Taf |
| Jones | Donna | Coleg y Cymoedd |
| Jones | Hannah | Rachael’s Playhouse, RCT |
| Jones | Liz | Cyngor Bro Morgannwg |
| Joyner | Michelle | Darpariaeth Amgen y Bont |
| Lear | Adam | Ysgol Uwchradd Fitzalan |
| Lester | Ben | Cyngor Gweithlu Addysg |
| Lewis | Sioned | Llywodraeth Cymru |
| Lloyd | Gareth | UCU |
| Lloyd | Owain | Cyngor Sir Gâr |
| Lloyd Hughes | Lowri | Llywodraeth Cymru |
| MacDonald | Kim | Ysgol Gynradd Tremains |
| Marsh | Kate | Ysgol Gymraeg Abercynon |
| McAvoy | Mathew | CYDAG |
| McLean | Will | Cyngor Sir Fynwy |
| Meadows | Ruth | Llywodraeth Cymru |
| Midgley | Lucy | Ysgol Idris Davies |
| Morgan Rees | Helen | Cyngor Abertawe |
| Munro-Morris | Luisa | Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent |
| Neagle | Lynne | Llywodraeth Cymru |
| Normanton-Davies | Lynsey | Ysgol Arbennig Pen y Cwm |

| | | |
|---|---|---|
| Norton | Phil | Cyngor Caerdydd |
| Osbourne | Helen | Cyngor Castell-Nedd Port Talbot |
| Pearce | Michelle | Cyngor Cymunedol Aberdare |
| Phillips | Karin | Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid |
| Phillips | Rebecca | Ysgol Glanhowy |
| Pollard | Jason | Llywodraeth Cymru |
| Powles | Andrew | Cyngor Torfaen |
| Rees | Katy | Cyngor Casnewydd |
| Rees | Kieron | Medr |
| Reynolds-Feeney | Freya | Comisiynydd Plant Cymru |
| Rhys Jones | Ioan | UCAC |
| Richards-Downes | Steven | Cyngor Sir Benfro |
| Rider | Helen | Ysgol Bryn Castell |
| Roberts | Nicola | Cyngor Sir Dinbych |
| Rowlands | Ellen | Cyngor Gwynedd ac Ynys Môn |
| Sargeant | Deb | Llywodraeth Cymru |
| Sarjent | Suzanne | Llywodraeth Cymru |
| Saunders | Zenny | Llywodraeth Cymru |
| Savage | Nicola | Undeb GMB |
| Shivington | Mark | Undeb Community |
| Sullivan | Hannah | Ysgol Crucywel |
| Tate | Mike | Ysgol Gymunedol Gorllewin Caerdydd |
| Taylor | Adele | Llywodraeth Cymru |
| Thomas | Andrew | Cyngor Bwrdeistref Castell-Nedd Port Talbot |
| Thomas | Hayley | Coleg Pen y Bont |
| Trott | Jo | Llywodraeth Cymru |
| Walker | Sue | Cyngor Sir Merthyr Tudful |
| Walsh | Lorraine | Llywodraeth Cymru |
| Warner | Chris | Llywodraeth Cymru |
| Whiting | Greg | Llywodraeth Cymru |
| Williams | Dave | Ysgol y Frenhines Elizabeth |
| Williams | Trystan | Cyngor Sir Gar / Llyw Cymru |
| Wools | Emma | Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru |
| Yeoman | Claire | Cyngor Caerdydd |